| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Ebrill 2016** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion/ Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Swyddog Datblygu Strategaeth Pobl Hŷn/ Rheolwr Gwasanaeth - Cymunedau a Lles** |
| **Teitl:** | **Cefnogi Annibyniaeth Pobl Hŷn - Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad pwyllgor hwn yn disgrifio casgliadau ac argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *"Cefnogi Annibyniaeth Pobl Hŷn: A yw Cynghorau'n gwneud digon?"* ac mae'n disgrifio sut y mae Sir Ddinbych yn ymateb i'r argymhellion. Mae'r argymhellion a'r camau gweithredu a nodwyd wedi'u hatodi yn y Cynllun Gweithredu. (Gweler Atodiad 1)

Mae modd darllen yr adroddiad drwy'r ddolen ganlynol:

http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/Annibyniaeth-pobl-h%C5%B7n

Ceir crynodeb o'r adroddiad yn Atodiad 2

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Disgwylir i bob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru gan fod ganddo oblygiadau pwysig ar gyfer ein perfformiad corfforaethol wrth gyflwyno gwasanaethau sy'n cefnogi pobl hŷn yn Sir Ddinbych, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau ataliol sy'n bodoli.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn ystyried yr adroddiad hwn, y sylwadau ac mae'n cefnogi'r angen am ddull corfforaethol i weithredu ei argymhellion trwy'r ystod o gamau gweithredu a restrir yn y Cynllun Gweithredu (Atodiad 1). Cynigir bod y Grŵp Cyfeirio Pobl Hŷn yn mynd i'r afael â'r argymhellion, ac mae'r Grŵp yma eisoes yn gyfrifol am weithredu Cynllun Heneiddio'n Dda Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn ystod 2015, bu Swyddfa Archwilio Cymru yn edrych a oedd Cynghorau'n gweithio'n effeithiol i gefnogi annibyniaeth pobl hŷn y tu allan i Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ymgymerwyd â'r gwaith ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru. Mae hwn yn adroddiad pwysig sy'n mynd i'r afael ag effaith y toriadau cyllidebol ar allu awdurdodau lleol i gynnal amrywiaeth o wasanaethau, sy'n cael eu hystyried yn bwysig wrth helpu i atal

yr angen am ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogi annibyniaeth pobl hŷn. Maent yn cynnwys gwasanaethau yn y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau cefnogi ymarferol
- Gwasanaethau cyngor a gwybodaeth
- Cyfleusterau sydd yn y gymuned
- Gwasanaethau Tai a gwasanaethau sy'n seiliedig ar dai
- Cludiant

4.2 Mae'r adroddiad yn nodi'r pwynt ei bod wedi bod yn anodd iawn i awdurdodau lleol gynnal y mathau yma o wasanaethau tra bod y cyllid sydd ar gael iddynt wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac ar yr un pryd yn gorfod ceisio diwallu anghenion poblogaeth sydd yn heneiddio, gan gynnwys niferoedd uwch o bobl 85+ oed sydd ag anghenion mwy cymhleth.

4.3 Mae'r adroddiad yn nodi bod cyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol wedi gostwng 10% yn y blynyddoedd rhwng 10/11 a 14/15, tra bod y gwariant ar wasanaethau a all gefnogi ataliaeth wedi gostwng 16.8% yn y flwyddyn 13/14 i 14/15.

*"I wneud yn iawn am warchod gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae cynghorau wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd a thorri arian o rywle arall, yn aml mewn gwasanaethau ataliol sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Dyma'r union wasanaethau y mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 yn eu hyrwyddo sy'n hanfodol i gadw pobl yn eu cartrefi a thu allan i'r system iechyd a gofal cymdeithasol drud.*

4.4 Mae'r adroddiad Annibyniaeth Pobl Hŷn yn ystyried a yw awdurdodau lleol yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ar; faterion sy'n ymwneud â phobl hŷn, effaith llai o gyllidebau ar wasanaethau pobl hŷn a'r ffyrdd y mae perfformiad Awdurdodau Lleol yn rheoli gwasanaethau i bobl hŷn. Daw i'r casgliad fod Cynghorau yng Nghymru yn aml yn canolbwyntio gormod ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ac nid ydynt bob amser yn cydnabod cyfraniad pwysig y gall gwasanaethau eraill ei wneud o ran cefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn. Mae hefyd yn cyfeirio at y ffaith roedd gormod o gynlluniau a strategaethau nad oedd wedi'u cysylltu yn aml nad oedd yn cynnwys materion allweddol am bobl hŷn.

4.5 Ar ben hynny, daeth yr adroddiad i'r casgliad, tra bod yna enghreifftiau arloesol o gynghorau'n cefnogi pobl hŷn, nid yw'r gwasanaethau ataliol ehangach a all helpu i leihau'r galw ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu gwerthfawrogi.

*"Mae pobl hŷn yn awyddus i gadw eu hannibyniaeth a'u hiechyd am gyhyd ag y bo modd. Er mwyn gwneud hyn yn aml, mae angen darparu gwasanaethau cymorth ymarferol, a all gael effaith sylweddol cadarnhaol ar annibyniaeth a lles parhaus pobl hŷn. Mae'r rhain yn wasanaethau fel bysiau a chludiant cymunedol, a chymorth gyda glanhau, garddio a siopa. Mae gallu mynd allan, cadw'n heini a meithrin sgiliau newydd yn gallu cael effaith gadarnhaol ar helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol ac osgoi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drud."*

4.6 Daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd bod yna ddiffyg data, sy'n ei gwneud yn anodd i gynghorau ddangos effaith eu gwasanaethau wrth gefnogi annibyniaeth pobl hŷn ac yn gwanhau'r broses gwneud penderfyniadau ac archwilio wrth bennu blaenoriaethau yn y dyfodol.

4.7 Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad os bydd Cynghorau yn parhau i dorri gwariant ar wasanaethau ataliol, yna byddai problemau megis unigrwydd ac unigedd ymysg pobl hŷn yn cael eu gwaethygu. Mae angen grymuso unigolion a chymunedau i gymryd mwy o reolaeth a symud y ddibyniaeth i ffwrdd o wasanaethau gofal ac edrych yn fanylach ar werth y gwasanaethau sy'n cadw annibyniaeth ac yn hyrwyddo lles. (Mae'r neges hon yn, mewn gwirionedd, yn un ganolog o fewn y Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru, sy'n cael ei roi ar waith y mis hwn).

4.8 Fel rhan o'n Strategaeth Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych, mae Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol wedi datblygu ystod o fentrau i gryfhau gwasanaethau ataliol i bobl hŷn yn Sir Ddinbych. Maent yn cynnwys:

- Cynhyrchu Cynllun Heneiddio'n Dda sy'n nodi ystod o gamau gweithredu mewn perthynas â datblygu cymunedau cefnogi pobl â dementia sy’n addas o ran oedran, mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol ac unigrwydd, atal codymau a datblygu mwy o gyfleoedd i feithrin sgiliau newydd a chyflogaeth ar gyfer pobl hŷn
- Defnyddio grant Cronfa Gofal Canolraddol i ddatblygu ystod o fentrau megis Cyfeiriwr Cymunedol, prosiect trydydd sector i wella’r ystod o opsiynau sydd ar gael i gefnogi pobl yn y gymuned
- Parhau i gefnogi'r trydydd sector ar yr un lefel er gwaethaf toriadau cyllidebol, ond sicrhau bod cefnogi annibyniaeth yn amod allweddol ar gyfer cyllid grant. Mae prosiectau newydd, sydd yn benodol yn cefnogi annibyniaeth pobl hŷn, wedi cael eu datblygu hefyd, megis Y Waen.
- Cryfhau ein gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl fel rhan o'n hymgyrch i wella mynediad at gyngor a gwybodaeth
- Datblygu'r fenter Sgwrs dan Arweiniad y Gymuned, sy'n cynnwys sefydlu 'Pwyntiau Trafod', sy'n anelu i estyn allan at bobl o fewn eu cymunedau eu hunain ac yn atal yr angen am atgyfeiriadau am wasanaethau
- Cynnal digwyddiad o bwys ynghylch Ynysu Cymdeithasol ac Unigrwydd
- Newid ein hymagwedd tuag at gynorthwyo unigolion i baratoi ar gyfer Deddf Lles Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), fel nad oes llawer mwy o bwyslais ar atal a ffocws ar gryfderau unigolion a'r cymorth sydd ar gael o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau, yn hytrach na cheisio eu huno â gwasanaethau penodol

4.9 Dros y deuddeg mis nesaf, bydd ein Strategaeth Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych yn cael ei ddatblygu ymhellach fel bod ymagwedd corfforaethol llawer cryfach i gefnogi pobl hŷn yn eu cymunedau. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfeirio at rai o'r gwasanaethau allweddol sydd o bwysigrwydd hanfodol i bobl hŷn. Maent yn cynnwys; llyfrgelloedd cyhoeddus, toiledau cyhoeddus, tai â chymorth, cludiant cyhoeddus, ymweld a chyfeillio, gosod dyfeisiau diogelwch a diogelu a chynorthwyo â mân dasgau yn y cartref. Yn ôl yr adroddiad, mae llawer o'r mathau yma o wasanaethau wedi bod mewn perygl o doriadau cyllidebol yn y blynyddoedd diwethaf, ond maent yn hanfodol bwysig o ran cefnogi pobl o fewn eu cymunedau ac atal neu oedi'r angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn llawer mwy costus.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Un o flaenoriaethau’r Cyngor yw sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Mae'r materion sy’n cael eu cynnwys yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn berthnasol iawn i'r flaenoriaeth benodol yma.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar faes gwasanaeth penodol o ran costau ychwanegol. Serch hynny, rydym eisoes yn ariannu ystod o fentrau ar sail gorfforaethol a sail Gwasanaeth Cymorth Cymunedol sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn, er enghraifft, amrywiaeth y gwasanaethau trydydd sector sy'n derbyn cyllid grant.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.

Nid yw'r adroddiad hwn angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan nad yw'n gwneud newidiadau i bolisi neu ddarparu gwasanaethau.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Paratowyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn ymgynghori helaeth gyda nifer o bobl hŷn, asiantaethau trydydd sector, ystod o swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a Chefnogwr Pobl Hŷn Sir Ddinbych. Bydd Grŵp Cyfeirio Pobl Hŷn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer o asiantaethau, yn cymryd rhan wrth symud ymlaen ag argymhellion allweddol gan ei fod ganddo rôl allweddol wrth weithredu ein Cynllun Heneiddio'n Dda.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risgiau yw, heb ymagwedd gorfforaethol effeithiol at wasanaethau ataliol ar gyfer pobl hŷn, a nifer cynyddol o bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth, bydd gwasanaethau prif ffrwd ar gyfer pobl hŷn yn dod yn anghynaladwy.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae gan y Cyngor Sir gytundeb mewn lle gyda Swyddfa Archwilio Cymru, pan fyddant yn cyhoeddi Astudiaeth Genedlaethol, bydd y Cyngor yn ymateb yn ffurfiol trwy'r Gwasanaeth perthnasol yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor mwyaf priodol. Dylai'r adroddiad hwn nodi ein hymateb i'r Astudiaeth Genedlaethol, a'i argymhellion. Mae ymateb y Cyngor Sir i'r adroddiad hwn yn bwysig mewn perthynas ag Asesiad Corfforaethol arfaethedig Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Erthygl 6.3.2 (c) yn nodi y gall Archwilio ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwasanaeth: Cymunedau a Lles, Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Ffôn: 01824 706632